# Y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant

## CC(3)-11-09 - Papur 1 - 9 Gorffennaf 2009

### Ymchwiliad y Pwyllgor i gyfiawnder ieuenctid yng Nghymru - casglu tystiolaeth - Llywodraeth Cymru

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn diweddaru'r papur tystiolaeth a gyflwynwyd gennyf i'r Pwyllgor ar gyfer y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Mawrth.

### Cefndir

### Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan

2. Conglfaen ein holl bolisïau cyfiawnder ieuenctid yw'r Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan, a gyhoeddwyd gennyf fi, fel y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, a Chadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru a Lloegr yn 2004. Mae'r Strategaeth yn ganlyniad i Lywodraeth Cynulliad Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ac asiantaethau lleol fod yn gweithio gyda'i gilydd i lunio strategaeth sy'n darparu fframwaith cenedlaethol i atal troseddu ac aildroseddu ymysg plant a phobl ifanc yng Nghymru. Ategir yr holl waith hwn gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i ofynion i ystyried hawliau'r person ifanc. Yn y tymor hir ei nod yw gwneud gostyngiad gwirioneddol a sylweddol yn niferoedd y troseddwyr ifanc yng Nghymru.

3. Mae'r Strategaeth yn ymgorffori nifer o egwyddorion allweddol h.y. y ffordd fwyaf effeithiol o atal troseddwyr ifanc a sicrhau lles plant a phobl ifanc yng Nghymru yw eu hatal rhag mynd i mewn i'r system cyfiawnder ieuenctid yn y lle cyntaf; a gellir cynnal cydbwysedd rhwng buddiannau'r plentyn neu'r person ifanc a buddiannau'r gymuned ehangach a dioddefwyr posibl drwy ymyrryd yn fuan, drwy gyfrwng mesurau cyfiawnder adferol, cosbau priodol ac adsefydlu â chefnogaeth.

### Ymrwymiadau Cymru'n Un

4. Mae rhaglen Cymru'n Un yn gwneud nifer o ymrwymiadau penodol yng nghyswllt cyfiawnder ieuenctid:

Parhau i roi blaenoriaeth i gamau ymyrryd ataliol ac atebion nad ydynt yn cynnwys caethiwo o safbwynt materion troseddau ieuenctid a chyfiawnder ieuenctid (a) wrth ariannu'r meysydd hyn a (b) o ran defnyddio strategaethau gwyro oddi wrth gaethiwo sy'n gydnaws â phwyslais ar dystiolaeth o effeithiolrwydd;

Ystyried modelau ymarfer trawsbynciol effeithiol rhwng y system cyfiawnder ieuenctid ac addysg, tai a gwasanaethau iechyd meddwl; ac

Ystyried y dystiolaeth dros ddatganoli'r system cyfiawnder troseddol yng nghyd-destun (a) datganoli cyllid a (b) symudiadau tuag at sefydlu un corff gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru.

### Pwyllgor Cyfiawnder Ieuenctid Cymru

5. Pwyllgor Cyfiawnder Ieuenctid Cymru sy'n goruchwylio'r gwaith o weithredu'r Strategaeth; caiff y pwyllgor hwn ei gadeirio ar y cyd gan Gyfarwyddwr yr Is-adran Diogelwch Cymunedol a chynrychiolydd Cymru ar y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Mae ganddo aelodau arbenigol o'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, Is-adrannau'r Cynulliad sy'n delio ag iechyd, addysg a thai ynghyd â'r holl asiantaethau lleol a chenedlaethol perthnasol eraill. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod bob chwarter ac, ers ei sefydlu yn 2004, mae wedi gosod targedau ac amcanion anodd ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar draws sbectrwm cyfan y meysydd pwnc sy'n berthnasol i atal troseddau ieuenctid. Dyma rai ohonynt:

Strategaeth Atal Troseddau Ieuenctid Cymru a gyhoeddwyd yn 2008;

nifer o gynlluniau celf a chwaraeon i ddifyrru ledled Cymru;

sawl astudiaeth gan NACRO Cymru;

diwygio Rhaglen Grantiau Bach Tanau Bwriadol;

hybu protocolau lleol rhwng AALlau a TTIau ynghylch anghenion pobl ifanc unigol;

cynyddu'r cymwysterau seiliedig ar safonau i ymarferwyr TTI; a chynnwys anghenion troseddwyr ifanc mewn canllawiau ar gynhyrchu Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ariannu a chefnogi 11 o raglenni cymorth a chynnwys ieuenctid a naw o brosiectau cynnwys ieuenctid. Roedd hyn yn golygu gweithio gyda thros 8000 o blant a phobl ifanc yn 2007-08 yn unig.

### Rhaglen Newid Cymru

6. Bu Llywodraeth y Cynulliad a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (BCI) yn gweithio gyda'i gilydd i adolygu'r modd y cyflawnir y strategaeth, a'r strwythurau sy'n ei hategu, yn ogystal â'r modd y mae'r BCI yn gweithredu yng Nghymru. Gwneir hyn er mwyn cydnabod y

gwahaniaethau cynyddol yn yr amgylcheddau cyflenwi gwasanaethau lleol y mae'r Timau Troseddau Ieuenctid (TTI) yng Nghymru yn eu hwynebu o ganlyniad i ddatganoli.

7. Dros y misoedd diwethaf mae fframwaith newydd ar gyfer cyflawni wedi cael ei lunio ac o'r herwydd bydd yr amcanion yn cael eu ffurfio gyda mwy o ffocws. Er mwyn cydnabod y potensial i gyflawni mwy a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru, caiff proffil y strategaeth ei godi, ac fel rhan o fframwaith rheoli perfformiad ehangach TTI BCI, bydd y broses gyflawni yn cyd-fynd yn well â chynlluniau eraill.

8. Bellach, yr wyf wedi cytuno ar y nodau a'r amcanion canlynol ar gyfer cyflawni'r strategaeth yn barhaus o 2009-10 ymlaen:

Lleihau nifer yr unigolion sy'n dod i gysylltiad am y tro cyntaf â'r system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru;

Lleihau'r gyfradd aildroseddu sicr ar gyfer troseddwyr ifanc yng Nghymru;

Lleihau cyfran y troseddwyr ifanc yng Nghymru sy'n cael euogfarn yn y llys sy'n cael eu dedfrydu i'r ddalfa";"

" "Cynyddu ymgysylltiad troseddwyr ifanc yng Nghymru ag addysg, hyfforddiant a chyflogaeth";" a

Chynyddu'r mynediad at lety addas i droseddwyr ifanc yng Nghymru; a

Chynyddu'r ddarpariaeth sgrinio ar gyfer camddefnyddio sylweddau, asesiadau ac ymgysylltiad â thriniaeth i'r rheini yn y system cyfiawnder ieuenctid.

### Y Gronfa Cymunedau Diogelach

9. Ar y lefel leol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwybodol bod cyllid sylweddol yn angenrheidiol er mwyn gweithredu egwyddorion ac amcanion allweddol y Strategaeth yn briodol. Er mwyn cynorthwyo gyda hyn, rydym yn darparu £4.5 miliwn o gyllid parhaus bob blwyddyn er mwyn hwyluso prosiectau lleol a fwriedir i atal troseddu ymysg ieuenctid a difyrru. Ledled Cymru, mae hyn wedi arwain at ariannu amrywiaeth mawr o brosiectau (oddeutu 160 gyda'i gilydd ym mhob blwyddyn), gan gynnwys llawer sy'n seiliedig ar weithgareddau artistig neu chwaraeon, gan roi help i rai sy'n camddefnyddio sylweddau, cymorth gydag addysg neu hyfforddiant, cynlluniau adferol a darparu cyfleusterau hamdden.

10. Yn ychwanegol at y Gronfa Cymunedau Diogelach, ceir sawl ffynhonnell nawdd arall gan Lywodraeth y Cynulliad sy'n effeithio ar y boblogaeth hon. Mae'r rhain yn cynnwys Cymorth; y Gronfa Gweithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau; Cefnogi Pobl; Dysgu Troseddwyr Ifanc; Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf; Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a Diogelwch Tân Cymunedol.

11. Y flwyddyn diwethaf, comisiynwyd gwerthusiad annibynnol o'r Gronfa Cymunedau Diogelach gan gonsortiwm a oedd yn cynnwys Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Abertawe. Mae'r adroddiad gwerthuso yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd ac yn destun trafod o hyd rhwng swyddogion a gwerthuswyr. Gwyddom, er hynny, fod y gwerthusiad yn gefnogol ar y cyfan i'r Gronfa Cymunedau Diogelach. Cyn gynted ag y cwblheir yr adroddiad gwerthuso, byddaf yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael copi; rwy'n disgwyl iddo fod yn barod erbyn Gorffennaf 2009.

### Cyllid Prif Ffrwd TTI - symiau, cyfraniadau'r partneriaid statudol

12. Yn 2006-07, roedd cost y timau troseddau ieuenctid yng Nghymru gyda'i gilydd yn £17,049,370. Dyma symiau a chyfraniadau'r partneriaid at hwn fel canrannau:

BCI (£2.9m) 16.9%

Heddlu (£1.5m) 8.8%

Gwasanaeth Prawf (£1.3) 7.9%

Gwasanaethau Cymdeithasol (£8.7m) 50.8%

Addysg (£0.6m) 3.8%

Iechyd (£0.7m) 4.3%

Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol (£1.3m) 7.8%

### Llwyddiannau diweddar yn lleihau niferoedd y Troseddwyr Tro Cyntaf yn y system cyfiawnder ieuenctid / lleihau'r niferoedd sy'n aildroseddu

13. Gwnaed cynnydd sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf o safbwynt cyflawni yn erbyn amcanion allweddol y Strategaeth. Gostyngodd nifer y troseddwyr tro cyntaf yn y system cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru 14.1% rhwng Mawrth 2006 a Mawrth 2008. Mae ystadegau'r BCI hefyd yn dangos gostyngiad o 4.9% mewn cyfraddau aildroseddu ymysg ieuenctid yng Nghymru er 2003. Yn y ddau faes hwn mae Cymru'n perfformio'n well na Lloegr. Nid yw'r BCI yn credu y ceir tystiolaeth i gefnogi'r honiad y gellir esbonio'r llwyddiant yn cyrraedd targedau Troseddwyr Tro Cyntaf drwy'u dadleoli drwy Hysbysiadau Cosb am Anrhefn. Yn dilyn cwestiwn yn y cyfarfod ar 26 Mawrth, ysgrifennais at Gadeirydd y pwyllgor gan roi ynghlwm gopi o safbwynt y BCI ar y mater hwn.

14. Mae data o fath arall ar gael sy'n awgrymu bod TTIau Cymru yn perfformio'n well na'r cyffredin o safbwynt defnyddio prosesau adferol a boddhad dioddefwyr. Yn 2004-05, bu i 84.2% o ddioddefwyr troseddau ieuenctid Cymru gyfranogi mewn prosesau cyfiawnder adferol ac roedd 97.4% yn fodlon gyda'r canlyniad. Yma roedd y ffigwr cyfartalog cyffredinol ar gyfer Lloegr a Chymru yn 81.8% a 96.8%. Mae'r data hwn yn galonogol ac mae'n awgrymu bod y prosiectau ataliol ar gyfer troseddau ieuenctid lleol a hwylusir gan Gronfa Cymunedau Diogelach Llywodraeth y Cynulliad yn cael effaith gadarnhaol ar leihau troseddau ymysg ieuenctid.

## Llety Diogel i'r Ifanc

15. Ar hyn o bryd ceir cyfanswm o 161 o blant a phobl ifanc o Gymru mewn llety diogel yng Nghymru a Lloegr. Ar hyn o bryd mae 78 o leoedd ar gael yng Nghymru yng Nghartref Plant Diogel Hillside a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc (ffigur a fydd yn cynyddu i 81 yn fuan - gweler paragraff 19 isod). Mae cost Cartref Plant Diogel Hillside (yr unig un yng Nghymru) yn £3,983 y pen yr wythnos. Ar draws Cymru a Lloegr, gall y costau godi hyd at £4,500 y pen yr wythnos ar gyfer y math hwn o lety. Mae cost Canolfannau Hyfforddiant Diogel yn oddeutu £3,650 y pen yr wythnos, ac ar gyfer Sefydliadau Troseddwyr Ifanc mae'r ffigwr yn oddeutu £1,000 y pen yr wythnos.

16. Pan fydd plant a phobl ifanc yn cael dedfrydau caethiwo, derbynnir yn gyffredinol y dylid bod darpariaeth sy'n galluogi iddynt dreulio eu dedfrydau heb fod ymhell o'u cartrefi. Ceir nifer o resymau pam bod hyn yn ddymunol, a pham bod y diffyg lle digonol ar hyn o bryd yn fater sy'n peri cryn bryder.

17. Mae darparu llety diogel yn agos i adref yn lleihau'r tebygolrwydd o niwed i'r bobl ifanc, drwy gyfrwng mesurau diogelu integredig a thrylwyr a ddylai gynnwys gwell cysylltiadau gyda'r Byrddau Diogelu Plant Lleol. Y nod yw sicrhau y ceir rhaglenni atal hunan-niwed a bwlio sefydledig.

18. Cyfrifoldeb y BCI ar hyn o bryd yw darparu addysg a hyfforddiant i droseddwyr ifanc yn y ddalfa. Er hynny, tra mae rhai pobl ifanc yn dal i dreulio eu dedfryd yn y ddalfa yn Lloegr, gall eu haddysgu, yn enwedig datblygu dulliau cydlynol rhwng y ddarpariaeth yn y ddalfa a'r ddarpariaeth yn y gymuned, fod yn anodd iawn. Ceir problem benodol i blant a phobl ifanc a ddelir mewn sefydliadau yn Lloegr o safbwynt eu hawl i ddysgu'r cwricwlwm Cymraeg drwy eu dewis iaith a chael mynediad at wybodaeth, cyngor ac arweiniad drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg fel ei gilydd.

19. Daethpwyd i gytundeb mewn egwyddor gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar ychwanegu chwe lle yng Nghartref Plant Diogel Hillside a gwnaed gwaith cynllunio ar sail hyn. Yn anffodus, fodd bynnag, oherwydd toriadau difrifol yng nghyllideb Whitehall, bu i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, yn ddiweddarach, leihau nifer y lleoedd ychwanegol yr oedd yn barod i ddarparu cyllid ar eu cyfer i dri. Cyhoeddwyd hyn gan David Hanson AS, y Gweinidog Gwladol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, pan fynychodd y cyfarfod o'r Pwyllgor ar 26 Mawrth. Mae'r cynlluniau i ehangu yn awr wedi cael eu diwygio ac yr wyf wedi cytuno at ddarpariaeth gyfalaf ar gyfer tri lle ychwanegol i droseddwyr ifanc ac un lle ychwanegol ar gyfer lles. Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a CBS Castell-nedd Port Talbot yn awr wedi cytuno ar gontract ffurfiol am gymorth refeniw ar gyfer dau ar bymtheg o leoedd hyd at 2014.

20. O safbwynt Gogledd Cymru, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cael cefnogaeth gadarn oddi wrth y chwe awdurdod lleol yn yr ardal ar gyfer uned ddiogel newydd ac roeddem yn agos at enwi safle priodol ar gyfer y cyfleuster newydd. Roedd Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi addewid i ddod o hyd i'r arian cyfalaf ar gyfer y prosiect hwn pe byddai'r BCI yn darparu'r cyllid refeniw; ac roedd y BCI wedi addo cyflwyno cais i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn cael yr arian hwn..

21. Mae Gweinidogion Whitehall, ers hynny, wedi rhoi arwyddion na fydd modd o bosibl bwrw ymlaen ar unwaith gyda chynlluniau i ychwanegu at y ddarpariaeth, er i David Hanson AS, y Gweinidog Gwladol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder, ysgrifennu ataf ym Mai yn fy sicrhau y byddai'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y Cynulliad i ddod o hyd i ffordd o ddatblygu cyfleusterau diogel newydd yng ngogledd Cymru.

## Rhyng-gysylltiad Gyda Pholisïau Eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru

22. Ceir nifer o strategaethau a pholisïau eraill mewn rhannau eraill o Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n perthyn yn agos iawn i'r Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan ac sy'n cynorthwyo gydag egwyddorion allweddol troi sylw pobl oddi wrth droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac adsefydlu pobl ifanc sydd wedi troseddu yn effeithiol, gydag addysg a hyfforddiant priodol, mynediad at wasanaethau meddygol a thriniaethau a lle addas i fyw. Mae llawer o'r polisïau hyn yn cael dylanwad penodol ar effeithiolrwydd trin pobl ifanc pan maent yn y ddalfa ac ar ôl eu rhyddhau'n ôl i'r gymuned. Dylai'r trosglwyddo cyfrifoldeb dros ddysgu troseddwyr i AALlau, maes o law, sicrhau manteision addysgol pwysig i bobl ifanc yn y ddalfa, ac mae ailystyried darpariaeth CAMHS yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn amlwg yn ddatblygiad sydd i'w groesawu yn natblygiad gwasanaethau meddygol priodol i'r grŵp agored i niwed hwn. Darperir disgrifiad manylach o'r polisïau hyn isod.

## Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)

23. Mae iechyd meddwl plant a'r glasoed yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru o hyd ac rydym yn atgyfnerthu ystod y gwasanaethau CAMH ar draws yr haenau gan gynnwys mynediad at CAMHS arbenigol. Rhyddhawyd £6.9m ychwanegol ar gyfer 2008-11. Yn ogystal dyrannwyd £6.5m ar gyfer gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion dros yr un cyfnod.

24. Gosodwyd targedau CAMHS manwl ar gyfer y GIG yng Nghymru yn y Fframwaith Gweithredu Blynyddol ar gyfer 2008-09 er mwyn sicrhau y darperir ymgynghoriad, cyngor a hyfforddiant i'r gweithwyr proffesiynol sy'n cyflawni swyddogaethau Haen 1. Gosodwyd targedau hefyd er mwyn tynhau amseroedd mynediad gan gynnwys y cleifion hynny y cawsent eu cyfeirio at 19. CAMHS arbenigol sydd wedi cynnal iselder a syniadaeth hunanddinistriol. Hefyd, mae Cynghorwyr Iechyd Meddwl, a gaiff ei dwyn o blith staff proffesiynol arbenigol profiadol CAMHS Arbenigol, ar gael i bob Tîm Troseddau Ieuenctid. Cafodd y targedau hyn eu hailadrodd ar gyfer 2009-10.

25. Mae ymarferiad i fapio darpariaeth y GIG yng Nghymru wedi dechrau. Mae hon yn system casglu data ar-lein flynyddol sy'n adeiladu disgrifiadau o wasanaethau a buddsoddiadau gan olrhain newid o un flwyddyn i'r llall. Bydd yr adroddiad o Brifysgol Durham ar gael yn haf 2009 a bydd yn cynorthwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu'r gwasanaethau hyn ymhellach.

26. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu hyrwyddo datblygiad gwasanaethau CAMH Fforensig ar gyfer Cymru-gyfan ac mae gwaith yn mynd rhagddo drwy gyfrwng Comisiwn Iechyd Cymru i ddatblygu Gwasanaeth Trin ac Ymgynghori Fforensig i'r Glasoed.

27. O safbwynt Carchar EM y Parc bu Bwrdd Partneriaeth Iechyd Carchar Pen-y-bont ar Ogwr sy'n grŵp aml-asiantaeth gyda chynrychiolaeth o'r GIG, asiantaethau cyfiawnder Troseddol a'r Awdurdod Lleol yn arwain y gwaith o ddatblygu achos busnes ar gyfer darparu CAMHS Haen 2/3. Mae'r cynigion ar gyfer gwasanaeth Haen 3 Cymru Gyfan yn cael eu datblygu ar hyn o bryd cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

28. Rhyddhawyd cyllid cyfalaf sylweddol o £35.7 miliwn i ddatblygu dwy uned breswyl GIG newydd i bobl ifanc hyd at 18 oed, yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac Ysbyty Abergele yng Ngogledd Cymru.

### Awtistiaeth

29. Mae Cynllun Gweithredu Strategol Cymru ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig (ASD) yn enwi'r system cyfiawnder troseddol ac ieuenctid, yn enwedig y timau troseddau ieuenctid, ymysg y rhestr o weithwyr proffesiynol y mae arnynt angen hyfforddiant ymwybyddiaeth. Mae'n bwysig sicrhau bod Partneriaethau Diogelwch Cymunedol hefyd yn ystyried anghenion pobl sydd ag ASD wrth gomisiynu gwasanaethau, ac yn gweithio gyda Thimau Troseddau Ieuenctid a Phartneriaethau Plant a Phobl Ifanc er mwyn sefydlu trefniadau sy'n atal pobl ifanc, gan gynnwys y rheini ag ASD, rhag troseddu.

30. Mae comisiynwyr lleol wrthi'n cynnal ymarferiad i fapio nifer achosion, gan nodi a chofnodi cleientiaid sydd ag ASD yn eu poblogaeth gleientiaid bresennol, a gan fapio gwasanaethau a bwrw amcan o'r galw am y gwasanaeth ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

31. Mae cynnig cynhwysfawr i ddatblygu nifer o becynnau hyfforddiant a chynyddu ymwybyddiaeth ar gyfer pob math o weithwyr proffesiynol a ddaw o bosibl i gysylltiad gyda phobl ag ASD wrthi'n cael ei asesu.

32. Mae'r wefan ddwyieithog ar awtistiaeth w

ww.awares.org

yn datblygu man neilltuol ar y wefan er mwyn darparu gwybodaeth i bob gweithiwr proffesiynol yn y system cyfiawnder troseddol.

33. Cafodd Cerdyn Sylw ASD ar gyfer y Gwasanaethau Brys ei lansio ledled y pedwar Heddlu yng Nghymru yn 2007 ac mae'n crisialu llawer o'r themâu allweddol a gwmpesir ym meysydd polisi'r Gyfarwyddiaeth Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.

34. Rhoddwyd taflenni gwybodaeth am y cynllun hwn i bob swyddog yng Nghymru a chyn belled mae Awtistiaeth Cymru wedi rhoi hyfforddiant am y gwasanaeth hwn i dros 200 o swyddogion o Heddlu Gwent a Heddlu De Cymru, ac aelodau'r Tîm Troseddau Ieuenctid ledled Cymru.

35. Tynnwyd sylw at y Cynllun Cerdyn fel arfer da gan Asiantaeth Gwella'r Heddlu (DU) a chafodd sylw gan Heddluoedd Gogledd Iwerddon, Dyfnaint, Swydd Gaerhirfryn ac Ynys Manaw.

### Mynediad at lety addas

36. Mae gan bob TTI yng Nghymru swyddog llety penodedig, a'i brif rôl yw sicrhau mynediad at dai addas i blant a phobl ifanc yn eu gofal a'u cefnogi i gynnal trefniadau byw sefydlog.

37. Sefydlwyd hefyd brosiect "Datblygu Gwasanaethau Llety Effeithiol i Droseddwyr Ifanc" mewn partneriaeth â Llamau. Mae hwn wedi dechrau canfod dull Cymru-gyfan i letya plant a phobl ifanc sy'n troseddu, gan integreiddio gwaith y TTI a'r gwasanaethau tai lleol.

### Dysgu Troseddwyr

38. Bydd y Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu yn mynnu bod Awdurdodau Addysg Lleol yng Nghymru a Lloegr sydd â llety cadw ieuenctid yn eu hardal yn sicrhau addysg addas i'r plant a'r bobl ifanc a ddelir yn y sefydliadau hyn. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i AALlau sydd â sefydliadau troseddwyr ifanc (STIau), canolfannau hyfforddiant diogel (CHDau) a chartrefi plant diogel (CPD) yn eu hardal drefn addysg addas i'r plant a'r bobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid a ddelir yn y sefydliadau hyn. Yng Nghymru, bydd hyn yn effeithio ar CBS Pen-y-bont ar Ogwr sydd â Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc yn ei ardal a CBS Castell-nedd Port Talbot sydd â Chartref Plant Diogel Hillside. Disgwylir y bydd yr arian a ddelir yng nghyllidebau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar hyn o bryd at y diben hwn yn cael ei drosglwyddo i Gymru.

39. Bydd y Mesur hefyd yn mynnu bod yr "AALlau Cartref" yng Nghymru a Lloegr (sef yr AALl lle mae'r person ifanc yn preswylio fel arfer) yn cymryd y camau y credant sy'n briodol i annog y sawl i gyflawni ei botensial addysgol yn ystod ei amser yn y ddalfa ac ar ôl ei ryddhau.

### Addysg a Hyfforddiant

40. Mae'r Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan yn cydnabod pwysigrwydd dysgu a chyflogaeth fel modd o atal troseddu ymysg

ieuenctid a sicrhau bod trefniadau addysg a hyfforddiant wedi'u sefydlu ar gyfer pobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol sy'n bodloni eu hanghenion.

41. Mae wedi cyflawni hyn drwy sicrhau bod gan y rheini sydd yn y system cyfiawnder troseddol yr un hawl i gyfarwyddyd addysgol â'r rheini sydd y tu allan iddi. Mae hefyd wedi sicrhau bod safon addysgol y cyfan o'r rheini sy'n mynd i'r ddalfa yn cael ei hasesu ac yn cael sylw.

42. Er mwyn hwyluso adsefydlu effeithiol a sefydlog, cafodd gwasanaethau troseddwyr ifanc eu hannog i sicrhau bod cyngor gyrfaol ar gael i'r rheini sy'n gadael y ddalfa.

43. Pan oeddwn yn Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio, sefydlais y Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, a chyflwynir hon mewn cyfnodau allweddol mewn 97 y cant o ysgolion cynradd ac uwchradd ledled Cymru, a hefyd mewn nifer o unedau cyfeirio disgyblion. Nod y rhaglen hon yw darparu rhaglen graidd o wybodaeth gywir, gyson a chredadwy er mwyn atal plant a phobl ifanc rhag ymddwyn mewn modd a allai arwain at iddynt ymwneud â'r system cyfiawnder ieuenctid.

44. Gan APADGOS y mae'r cyfrifoldeb polisi arweiniol dros wella cyfleoedd dysgu i droseddwyr ifanc 11-25 oed mewn lleoliadau cymunedol yng Nghymru. Dechreuodd y Prosiect Dysgu i Droseddwyr Ifanc yn 2004. O 1$^{af}$ Ebrill 2008 ymlaen, daeth y cyfrifoldeb yn rhan o waith prif ffrwd y tîm Hawliau yn yr Is-adran Plant a Phobl Ifanc. Datblygwyd e-GDU (Cynllun Dysgu Unigol Electronig) gan y prosiect ar ôl lansio peilot graddfa fechan ym Mawrth 2008. Mae'n ddwyieithog ac fe'i crëwyd gyda'r bwriad o fod yn gynnyrch 'addas at y pwrpas' i'w ddefnyddio yng Nghymru.

45. Bu nifer o gyflawniadau addysgol eraill o fudd i droseddwyr ifanc yng Nghymru. Datblygwyd Cynllun Dysgu Unigol Electronig Cryno ar gyfer treial mewn carchar i oedolion. Lluniwyd prosiect ar draws yr ystâd ddiogel, sef templed trosglwyddo cryno ar gyfer gwybodaeth am addysg a hyfforddiant i gael ei anfon cyn-rhyddhau a chafodd hwn ei anfon at Gyrfa Cymru a gweithwyr addysg TTI. Am y tro cyntaf, mae pobl ifanc yng Nghymru (ac sy'n treulio eu dedfryd yn Lloegr) wedi gallu cael gafael ar Lwfans Cynnal Addysg. Lluniwyd swydd-ddisgrifiad lefel uwch ar gyfer rôl gweithwyr 'addysg' Timau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru. Anfonwyd llyfryn at bob ysgol yng Nghymru yn canolbwyntio ar Gyfiawnder Ieuenctid ac Ysgolion, gan hyrwyddo'r arferion gorau, ar wybodaeth a hybu ymwybyddiaeth. Cynhyrchwyd llyfrynnau sefydlu yng Nghartref Plant Diogel Hillside a Sefydliad Troseddwyr Ifanc y Parc, wedi'u creu gan y bobl ifanc.

46. Cynhaliwyd Prosiect Cefnogaeth Bersonol yn y Ddalfa yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ashfield a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Stoke Heath gan roi cefnogaeth i bobl ifanc adsefydlu mewn addysg neu hyfforddiant yng Nghymru ar ôl treulio'u dedfryd yn Lloegr. Bu pum prosiect yn cynnwys Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a Chartrefi Plant Diogel yng Nghymru a Lloegr lle bu'r bobl ifanc yn dewis ac yn datblygu eu llyfrgelloedd gydag adnoddau yn ymwneud ag addysg, iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru. Datblygwyd canllawiau addysgol o'r enw 'The Learning Journey' ar gyfer Cartrefi Plant Diogel yng Nghymru.

### Sgrinio, asesiadau a thriniaethau ar gyfer camddefnyddio sylweddau

47. "Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed" yw strategaeth ddeng mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael â'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol, cyffuriau a sylweddau eraill yng Nghymru. Nodau'r strategaeth yw cynyddu'r ymdrechion i atal camddefnyddio sylweddau rhag digwydd, anelu'r ymdrech tuag at yr unigolion hynny sydd â'r risg fwyaf ond hefyd sicrhau y rhoddir sylw i anghenion y boblogaeth ehangach. Os yw camddefnyddio sylweddau yn digwydd, rhaid i'r gwasanaethau sydd ar gael gael eu hehangu a rhaid hoelio'r ymdrechion ar helpu'r rheini sy'n camddefnyddio sylweddau i wella'u hiechyd a chynnal eu hadferiad. Rhaid i gefnogaeth i deuluoedd y rheini sy'n camddefnyddio sylweddau hefyd barhau. Mae camddefnyddio sylweddau'n un o'r prif ffactorau sy'n rhagfynegi ymddygiad troseddol yn y dyfodol ymysg plant a phobl ifanc. Pwysleisia'r Strategaeth Troseddwyr Ifanc Cymru Gyfan yr angen am ymatebion lleol i gamddefnyddio sylweddau ymysg plant a phobl ifanc; yn bennaf drwy waith y timau gweithredu ar gamddefnyddio sylweddau.

48. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sicrhau bod pob person ifanc sy'n dod dan ofal TTI yng Nghymru, gan gynnwys y rheini a ryddheir o ddedfrydau caethiwo, yn cael ei asesu i ganfod y lefelau angen o safbwynt camddefnyddio sylweddau. Mae'r BCI wedi darparu cyllid ar gyfer gweithwyr camddefnyddio sylweddau fel rhan o'r tîm troseddau ieuenctid ledled Cymru. Bwriad y dangosyddion perfformiad allweddol yn y maes hwn yw sicrhau bod yr holl bobl ifanc yn cael eu sgrinio am gamddefnyddio sylweddau, ac mae'r rheini y gwelir bod ganddynt anghenion yn cael asesiadau arbenigol cyn pen pum diwrnod gwaith a thriniaeth cyn pen deng niwrnod gwaith pellach. Mae'r perfformiad yn y ddau faes hwn wedi dangos gwelliant addawol yn y flwyddyn diwethaf, gydag 85% o asesiadau'n awr yn cael eu cynnal cyn pen 5 niwrnod a 91.5% o bobl ifanc yn cychwyn triniaeth o fewn y targed, sef 10 diwrnod pellach.

49. Mae Rhaglenni Adsefydlu ac Ôl-ofal wedi targedu plant a phobl ifanc sy'n gadael y ddalfa, ac y mae eu troseddau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, ar gyfer cefnogaeth adsefydlu lefel uwch.

50. Ariannwyd nifer o raglenni ledled Cymru dan y Cronfeydd Strwythurol a Chydlyniant i gefnogi partneriaethau lleol yn eu gwaith yn mynd i'r afael â chamddefnyddio sylweddau ac i ostwng nifer y troseddau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau ymysg plant a phobl ifanc.

51. Ar hyn o bryd rydym yn llunio Canllawiau Arfer Da ar gyfer triniaeth camddefnyddio sylweddau gan Dimau Troseddau Ieuenctid yng Nghymru fel un modiwl o'r Fframwaith Trin Camddefnyddio Sylweddau i Gymru. Mae'r ddogfen yn darparu crynodeb o'r dystiolaeth, barn broffesiynol a'r datganiadau polisi presennol am yr hyn yw'r arferion gorau o safbwynt trin camddefnyddio sylweddau i dimau troseddau ieuenctid.

### Cymorth i Deuluoedd a Magu Plant

52. Drwy gyfrwng y Mesur Plant a Theuluoedd arfaethedig, rydym yn diwygio'r modd y mae gwasanaethau'n cael eu trefnu a'u cyflenwi i blant agored i niwed a'u teuluoedd sydd ag anghenion dyrys (e.e. camddefnyddio sylweddau neu gamdriniaeth yn y cartref) ac y mae arnynt angen cefnogaeth amlddisgyblaeth ddwys oddi wrth weithwyr proffesiynol sgilgar.

53. Caiff y trefniadau newydd hyn eu cyflenwi drwy gyfrwng Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICID) a'u prif nodau yw darparu cymorth dwys cynnar er mwyn newid ymddygiad ymysg y rhieni a chaniatáu i'r plentyn fyw'n ddiogel yng nghartref y teulu.

54. Bydd TICID yn meithrin y cysylltiadau gyda'r system cyfiawnder ieuenctid ac yn darparu cefnogaeth bwysig yn gynharach i blant a phobl ifanc cyn i'w problemau ddwysáu. Dylai ymyriad cynharach gyda phlant agored i niwed hefyd gael effaith ar lefelau'r plant sy'n symud i ofal ac i'r systemau cyfiawnder ieuenctid.